

The construction process

In general, onshore wind farms of this size would take up to two years to be completed. The start date of the construction would depend on approval and transmission availability. It would start with enabling works to lay the foundations for the development.

The project would then be separated into different phases to ensure that the work can be carried out efficiently, ideally over the summer months. To minimise disruption to the nearby community, working days would be Monday to Saturday and quiet and non-intrusive works may be carried out outside of these times when required.

We are looking at using stone from local quarries, helping the local supply chain and minimising travel.

The work to construct the control building and cable installation will be done first to be ready for the turbine assembly. Once the infrastructure is completed, we will then connect the site to the grid network and testing and commissioning will commence.

Y broses adeiladu

Yn gyffredinol, byddai'n cymryd hyd at ddwy flynedd i gwblhau ffermydd gwynt o'r maint hwn ar y tir. Byddai dyddiad cychwyn y gwaith adeiladu yn dibynnu ar gymeradwyaeth ac argaeledd trawsyrru. Byddai'n dechrau gyda gwaith galluogi i osod y sylfeini ar gyfer y datblygiad.

Byddai'r prosiect wedyn yn cael ei wahanu'n gamau gwahanol er mwyn sicrhau y gellir gwneud y gwaith yn effeithlon, yn ddelfrydol dros fisoedd yr haf. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y gymuned gyfagos, dyddiau gwaith fyddai dydd Llun i ddydd Sadwrn a gellir gwneud gwaith tawel ac anymwithiol y tu allan i'r amseroedd hyn pan fo angen.

Rydym yn edrych ar ddefnyddio cerrig o chwareli lleol, gan helpu'r gadwyn gyflenwi leol ac yn lleihau teithio.

Bydd y gwaith o adeiladu'r adeilad rheoli a gosod ceblau yn cael ei wneud yn gyntaf i fod yn barod ar gyfer cydosod y tyrbîn. Unwaith y bydd y seilwaith wedi'i gwblhau, byddwn wedyn yn cysylltu'r safle â'r rhwydwaith grid a bydd y gwaith profi a chomisiynu yn dechrau.

Transport and traffic

Due to the size of the pre-assembled turbine components, we will need to deliver them via large delivery vehicles, which would travel along a pre-agreed and assessed route to access the site. We are currently expecting that the site will be accessed from the west via Old Pant Road through Newbridge.

All routes have been assessed through the Traffic Management Plan to ensure minimal disruption to the local area. We have been working with the local highways authorities and technical consultees to ensure that this is the best route for transport.

The Traffic Management Plan contains further detailed information about the construction route and access arrangements. Chapter 12 of the ES also provides further information on this topic.

Cludiant a thraffig

O ganlyniad i faint cydrannau'r tyrbînau sydd wedi eu cydosod o flaen llaw, bydd angen i ni eu cludo ar gerbydau mawrion, a fydd yn teithio ar hyd llwybr i'r safle a fydd wedi'i gytuno a'i asesu o flaen llaw. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl y bydd mynediad i'r safle o'r gorllewin trwy Old Pant Road trwy Drecelyn.

Mae'r holl lwybrau wedi'u hasesu drwy'r Cynllun Rheoli Traffig i sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar yr ardal leol. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdodau priffyrdd lleol ac ymgygoreion technegol i sicrhau mai dyma'r llwybr gorau ar gyfer trafndiaeth.

Mae'r Cynllun Rheoli Traffig yn cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl am y llwybr adeiladu a threfniadau mynediad. Mae Pennod 12 o'r ES hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn.

Decommissioning

The anticipated lifespan of the project is 30 years from the point of commissioning. Once commissioned, the turbines and site infrastructure will be regularly assessed and maintained by engineers visiting at regular intervals to check and maintain the turbines. Decommissioning is, in essence, the construction period in reverse. Assessments, surveys and management plans will be agreed with relevant authorities to ensure the safe removal of infrastructure and restoration of the land to ensure minimal impact on the local environment.

Datgomisiynu

Rhagwelir mai oes y project fydd 30 mlynedd o'r pwynt y caiff ei gomisiynu. Wedi iddo gael ei gomisiynu, bydd y tyrbînau a seilwaith y safle yn cael eu hasesu a'u cynnal yn rheolaidd gan beirianwyr a fydd yn ymweld yn rheolaidd i wirio a chynnal a chadw'r tyrbînau. Yn y bôn, datgomisiynu yw'r cyfnod adeiladu i'r gwrthwyneb. Caiff asesiadau, arolygon, a chynlluniau rheoli eu cytuno gyda'r awdurdodau perthnasol er mwyn sicrhau tynnu'r isadeiledd yn ddiogel ac adfer y tir er mwyn sicrhau y ceir cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd lleol.